**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

27 Mehefin 2023

Annwyl Delyth,

Yn dilyn fy ymrwymiad i weithio'n agos gyda'r Pwyllgor wrth i ni symud ymlaen â'r rhaglen o gyflwyno rheoliadau safonau'r Gymraeg, ysgrifennaf i hysbysu'r Pwyllgor fy mod yn bwriadu gosod Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 9) 2023 gerbron y Senedd cyn hir.

Bydd y Rheoliadau hyn yn gwneud safonau'n benodol gymwys i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n dod o dan y penawdau canlynol yn Atodlen 8 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur"):

- Personau neilltuedig sydd, yn rhinwedd penodiad o dan adran 6 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, neu yn rhinwedd amrywio'r penodiad hwnnw o dan adran 7 o'r Ddeddf honno, yn ymgymerwyr dŵr dros Gymru gyfan neu unrhyw ran ohoni.
- Personau neilltuedig sydd, yn rhinwedd penodiad o dan adran 6 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, neu yn rhinwedd amrywio'r penodiad hwnnw o dan adran 7 o'r Ddeddf honno, yn ymgymerwyr carthffosiaeth ar gyfer Cymru gyfan neu unrhyw ran ohoni.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Reoliadau drafft rhwng 15 Chwefror a 5 Ebrill 2023. Hwn oedd yr ail ymgynghoriad a gynhaliwyd ar safonau drafft ar gyfer y sector hwn gan fod un wedi'i gynnal yn flaenorol yn 2017. Bydd adroddiad yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ar yr un diwrnod ag y gosodir y Rheoliadau. Fy mwriad yw cynnal dadl ar y Rheoliadau yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Medi 2023.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.